# Dogfen Grynhoi Ysgolion yr 21ain Ganrif 2019

## BLYNYDDOEDD CYNNAR, DARPARIAETH CYNRADD AC UWCHRADD AR GYFER ADAMSDOWN A SBLOT

16 Medi – 4 Tachwedd 2019



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille. Nid y ddogfen ymgynghori yw hon.
Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn.

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

## Cefndir

Yn 2017, fe nodon ni yr angen i gynyddu nifer y llefydd ysgol uwchradd fel rhan o Raglen Band B Ysgolion y 21ain Ganrif a'r angen i wella adeiladau ysgolion.

Mae Ysgol Uwchradd Willows yn un o dri adeilad ysgol uwchradd a nodwyd eu bod mewn cyflwr mor wael fel bod angen adeiladau newydd.

Mae arolygon o adeiladau ysgolion yng Nghaerdydd hefyd wedi nodi problemau yn Ysgol Gynradd Baden Powell.

Law yn llaw â hyn, mae Archesgobaeth Caerdydd wedi gofyn i'r Cyngor ddwyn cynigion ger bron i gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban. Fel rhan o gynigion ehangach ar gyfer darpariaeth ysgol ar gyfer Adamsdown a Sblot. Cynigiwyd hyn oherwydd pryderon parhaus o ran dichonoldeb Ysgol Gynradd Gatholig St Alban.

## Beth rydym yn cynnig ei wneud?

### Darpariaeth Uwchradd ac Ôl-16

- Cynyddu capasiti yr ysgol o 1,121 lle (7.4 Dosbarth Mynediad) i 1,200 lle (8 Dosbarth Mynediad) ar gyfer disgyblion 11-16 oed o fis Medi 2023
- Trosglwyddo Ysgol Uwchradd Willows i Barc Tremorfa, mewn adeiladau newydd, o fis Medi 2023
- Sefydlu darpariaeth ôl-16 i hyd at 250 o ddisgyblion o fewn yr adeiladau newydd o fis Medi 2023

### Darpariaeth Gynradd a'r Blynyddoedd Cynnar

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban, o fis Awst 2021
- Cynyddu capasiti Ysgol Gynradd Baden Powell o 420 lle (2 Ddosbarth Mynediad) i 630 lle (3 Dosbarth Mynediad) o fis Medi 2021
- Lleihau ystod oed Ysgol Gynradd Baden Powell o 3-11 i 4-11 o fis Medi 2021, gan ddiddymu'r ddarpariaeth feithrin
- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Baden Powell i Barc Tremorfa, mewn adeiladau newydd, o fis Medi 2023
- Cynyddu capasiti Ysgol Feithrin Tremorfa o 112 lle i 128 lle
- Ehangu ystod y gwasanaethau ar y safle a ddarperir gan y safle Meithrinfa Tremorfa presennol a'r safle St Alban gwag, gan gynnwys gofal plant a chymorth rhianta Dechrau'n Deg, o fewn Canolfan Blant Integredig ar safle'r Ysgol Feithrin Tremorfa bresennol a'r safle Ysgol Gynradd Gatholig St Alban gwag o fis Medi 2021.

### Cyfleusterau Cymunedol

- Gwella cyfleusterau cymunedol yn Nhremorfa drwy adnewyddu rhai o'r cyfleusterau cymunedol awyr agored sydd wedi eu lleoli ar y safle ysgol newydd a chaeau chwarae newydd i'w rhannu gyda Chlwb Rygbi St Alban ac eraill yn y gymuned.

Byddai unrhyw gynnig a gaiff ei gyhoeddi sy'n cynnwys darpariaeth ôl-16 angen cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu mai Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen.

## Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

Mae manylion llawn i'w cael yn y Ddogfen Ymgynghori yma:

**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

Rydym wedi trefnu cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd holi cwestiynau. Mae'r rhain wedi eu rhestru isod:

### Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 17 Medi, 9.30 – 11.00 am | Hyb STAR |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Gwener 20 Medi, 10.00 – 11.30 am | Ysgol Gynradd Gatholig St Alban |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Gwener 27 Medi, 10.00 – 11.30am | Ysgol Uwchradd Willows |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 30 Medi, 3.00 – 4.00pm | Ysgol Gynradd Stacey |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 1 Hydref, 9.00 – 10.00am | Ysgol Gynradd Moorland |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Mercher 2 Hydref 6.30 – 8.00pm | Ysgol Gynradd Gatholig St Alban |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Iau 3 Hydref, 5.00 – 7.00pm | Llyfrgell Ganolog |
| Sesiwn Galw Heibio | Tuesday 8th October, Dydd Mawrth 8 Hydref, 1.00 – 2.30pm | Meithrinfa Tremorfa |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Mercher 9 Hydref, 6.30 – 8.00pm | Ysgol Uwchradd Willows |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Llun 14 Hydref 9.00 – 10.00am | Ysgol Gynradd Adamsdown |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 22 Hydref, 3.30 – 5.00pm | Ysgol Gynradd Baden Powell |
| Sesiwn Galw Heibio | Dydd Mawrth 1af Hydref, 10.00 -11.30 am | Neuadd yr Eglwys St Alban |

Mae cyfarfodydd ar wahân wedi eu trefnu ar gyfer staff a llywodraethwyr.

## Sut allaf roi fy marn?

- Gallwch roi eich barn yma http://www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot
- Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalennau 11 a 12 y llyfryn hwn.

# Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

Nod y cynigion yw cyflawni rhaglen uchelgeisiol o newidiadau a buddsoddiad i drawsnewid yr addysg a gaiff ei gynnig ar hyn o bryd yn Adamsdown a Sblot.

**Llefydd ysgol** - Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

**Cyflwr ac Addasrwydd** - Rhaid i gyfleusterau ysgol fod yn addas i'r diben. Rhaid i ysgolion gefnogi dysgu o ansawdd uchel.

**Darpariaeth Ôl-16** - Byddai darpariaeth ôl 16 newydd ar safle arfaethedig Ysgol Uwchradd Willows yn gwella'r cyfleoedd i bobl ifanc leol.

**Llefydd Ysgol Uwchradd Cymunedol ledled y ddinas**

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion sydd yn mynd i ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7) yng Nghaerdydd wedi cynyddu. Mae amcanestyniadau yn awgrymu y bydd y cynnydd hwnnw yn parhau.

Erbyn mis Medi 2024 mae'n bosib y bydd cwymp yn y galw cyffredinol am lefydd gan ddisgyblion yn byw yn y tai presennol. Fodd bynnag, mae sawl safle tai newydd wedi eu cynllunio ar hyd a lled y ddinas. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd yn dal i fod fwy o ddisgyblion na'r nifer o lefydd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ein hysgolion wedi 2024.

Ysgol gynradd newydd a adeiladwyd yn ddiweddar yng Nghaerdydd - Ysgol Glan Morfa



## Pam ehangu ac adnewyddu Ysgol Uwchradd Willows?

Mae Ysgol Uwchradd Willows wedi derbyn sgôr o D ar gyfer ei gyflwr (diwedd oes) a rhaid cael adeilad newydd.

Mae rhagfynegiadau y Cyngor yn awgrymu y byddai ail-adeiladu Ysgol Uwchradd Willows gyda 180-210 o lefydd ym mhob grŵp blwyddyn yn rhoi digon o le i wasanaethu'r dalgylch presennol.

Byddai cynnydd bychan i 8 dosbarth mynediad yn:

- creu trefniadaeth ddosbarth effeithlon
- cynnig digon o gapasiti ar gyfer plant lleol sydd am le mewn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg, a
- cyfrannu rhai llefydd ychwanegol i ateb y galw a ragamcennir ar gyfer yr ardal ehangach.

### Darpariaeth Ôl-16

Ar hyn o bryd, ysgol 11-16 oed yw Ysgol Uwchradd Willows. Ni cheir darpariaeth addysg ôl-16 ar y safle i ddisgyblion sydd yn dymuno astudio safon uwch neu gyrsiau galwedigaethol. Golyga hyn fod unrhyw ddisgybl sydd yn cwblhau addysg uwchradd yn Willows ac am bontio i addysg bellach a hyfforddiant angen teithio i rywle arall.

Byddai'r cynnig ar gyfer 250 o lefydd Ôl-16 yn cynnig dewisiadau ôl 16 cyffrous yn Adamsdown a Sblot. Byddai hyn yn golygu y byddai gan ddisgyblion lleol y dewis o barhau â'u haddysg ar y safle newydd yn Nhremorfa ar ôl cwblhau Blwyddyn 11 yn yr ysgol.

Byddai gweithio gyda phartneriaid yn yr adeiladau newydd hyn yn rhoi cyfleoedd newydd i bobl ifanc i anelu'n uchel ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol ac i lwyddo.

### Darpariaeth Gynradd a'r Blynyddoedd Cynnar

Ceir pedair ysgol gynradd gymunedol Saesneg yn Adamsdown a Sblot (Adamsdown, Baden Powell, Moorland ac Ysgol Gynradd Stacey). Mae dosbarth meithrin gan bob un o'r ysgolion hyn.

Ceir llefydd meithrin hefyd, i wasanaethu'r ardal ehangach yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Tredegarville, ysgol Gynradd Gatholig St Pedr, Ysgol Feithrin Tremorfa ac Ysgol Glan Morfa.

Mae capasiti presennol y dosbarthiadau meithrin a chynradd presennol yn ddigonol fwy neu lai i ateb y galw am lefydd yn yr ardal leol.

Mae arolygon wedi nodi problemau cyflwr yn Ysgol Gynradd Baden Powell. Byddai'r rhain yn galw am fuddsoddiad o fewn a thu hwnt i gyfnod buddsoddi Rhaglen B (2019-2024). Ni fyddai ailwampio'r ysgol yn gwella'n sylweddol ar yr amgylchedd dysgu.

Yr Archesgobaeth Gatholig sydd wedi gwneud y cais dros gau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban i gael ei gynnwys yn y cynigion ehangach ar gyfer yr ardal.

Am ragor o wybodaeth darllenwch y ddogfen ymgynghori lawn yn:
**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

Y prif resymau a roddir dros gynnig cau yw:

- nifer isel y disgyblion o deuluoedd Catholig sydd yn dewis mynd i'r ysgol,
- anawsterau hirdymor yn recriwtio a chadw pennaeth parhaol i arwain yr ysgol yn effeithiol

## Sut fyddai'r newidiadau arfaethedig i'r Ddarpariaeth Gynradd a'r Blynyddoedd Cynnar yn gweithio?

Pe byddent yn cael eu cytuno:

- **Byddai Ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn cau ym mis Awst 2021**

Byddai gofyn i unrhyw ddisgybl a oedd yn dal i fod ar y gofrestr yn yr ysgol yn 2021 wneud cais i drosglwyddo i ysgolion eraill gan gynnwys Ysgol Gynradd Baden Powell

Byddai gofyn i rieni a oedd yn dymuno i'w plant barhau i dderbyn addysg ysgol Gatholig wneud cais i ysgolion cynradd Catholig eraill. Byddai'r plant hyn yn y rhan fwyaf o achosion yn teithio ymhellach i'r ysgol ac efallai y byddai angen cludiant cartref i'r ysgol ar rai.

- **Byddai Ysgol Gynradd Baden Powell yn cynyddu o 420 lle i blant 4-11 oed i 630 lle.**

Byddai'r Ysgol Gynradd Baden Powell fwy ei maint yn gweithredu ar ei safle presennol. Ar ben hynny, byddai'n defnyddio adeiladau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban ar gyfer cyfnod pontio. Byddai'r trefniadau hyn yn weithredol o fis Medi 2021, hyd nes cwblhau'r adeilad ysgol newydd. Disgwylir i adeiladau newydd Ysgol Gynradd Baden Powell fod yn barod erbyn mis Medi 2023.

O fis Medi 2021, ni fyddai Ysgol Gynradd Baden Powell yn cynnig darpariaeth feithrin. Byddai'r holl lefydd meithrin yn cael eu cynnig yn Ysgol Feithrin Tremorfa.

- **Byddai capasiti Ysgol Feithrin Tremorfa yn cael ei godi o 112 lle i 128 lle**

Byddai Meithrinfa Tremorfa yn cynyddu mwy o lefydd addysg feithrin ar gyfer y gymuned. Ar ben hynny, byddai'r ysgol yn cael ei datblygu i fod yn Ganolfan Blant Integredig.

Byddai'r ganolfan yn cynnig ystod ehangach o wasanaethau i deuluoedd a phlant ifanc o ardal Sblot/ Tremorfa. Byddai'r cymorth gofal plant a rhianta Dechrau'n Deg yn trosglwyddo o safle Ysgol Uwchradd Willows. Byddai'r ganolfan blant integredig wedi ei lleoli yn adeiladau presennol Ysgol Feithrin Tremorfa ac adeiladau Ysgol Gynradd Gatholig St Alban gerllaw. Adeiladau/safle Ysgol Gynradd.

Mae cynnydd yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Moorland eisoes wedi ei gytuno.

## Cyflwr ac Addasrwydd

Mae cyflwr adeiladau'r holl eiddo ysgolion yng Nghaerdydd wedi eu hasesu. Maent wedi derbyn sgôr o A i D, gyda'r ysgolion â sgôr o D yn y cyflwr salaf. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu pa ysgolion sydd angen gwella eu hadeiladau ac angen buddsoddi ynddynt. Mae'r Cyngor yn gwneud ceisiadau i sefydliadau eraill er mwyn sicrhau'r arian buddsoddi.

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen cyfalaf grant sef rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif sy'n rhoi arian i fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion. Defnyddir yr arian hwn i greu llefydd newydd a/neu i wella cyflwr adeiladau sy'n bodoli eisoes. Fel rhan o hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i holl gynghorau Cymru fod yr holl ysgolion a dderbyniodd sgôr o D am eu cyflwr i gael eu hadnewyddu/uwchraddio. Roedd hyn yn ofyniad er mwyn gallu derbyn cyllid cyfalaf.

- Mae Ysgol Uwchradd Willows wedi derbyn sgôr o D am ei gyflwr (diwedd oes - rhaid cael adeilad newydd).
- Mae Ysgol Gynradd Gatholig St Alban wedi derbyn sgôr cyflwr o B (boddhaol) a B ar gyfer addasrwydd (boddhaol).
- Mae ysgol gynradd Baden Powell wedi cael sgôr o C ar gyfer cyflwr (gwael) ac addasrwydd.
- Mae ysgol Feithrin Tremorfa wedi derbyn sgôr o B o ran cyflwr a C am addasrwydd (gwael).

Mae manylion pellach am y sgorio i'w cael yn y ddogfen ymgynghori:

**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

## Ansawdd a Safonau

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei archwilio gan Estyn. Mae Estyn yn sicrhau fod ysgolion yn cynnig safon dda o addysg i'w disgyblion a bod pob plentyn yn derbyn cymorth i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol. Mae ysgolion hefyd yn cael eu gosod i mewn i un o bedwar categori cymorth lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Gategoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Ysgolion Ambr a Choch yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.

Ceir amlinelliad o fanylion safonau Ysgol Uwchradd Willows, Ysgol Gynradd Baden Powell, Ysgol Gynradd Gatholig St Alban ac Ysgol Feithrin Tremorfa fel y'u nodir yn adroddiadau Estyn ar gyfer pob ysgol yn y tabl isod.

Am ragor o wybodaeth darllenwch y ddogfen ymgynghori lawn yn:
**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

Mae'r lliwiau a ddefnyddir yn dangos y categoreiddio mwyaf diweddar gan ddefnyddio Categoreiddio llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2019.

| Ysgol | Dyddiad yr Arolwg | Canlyniad | Cynnydd |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | Ebrill 2018 | Da/addas<br>Estyn i adolygu cynnydd yr ysgol | Parhaus: Disgwyl adolygiad Estyn |
| Ysgol Gynradd Baden Powell | Gorffennaf 2017 | Da/addas<br>Estyn i fonitro cynnydd yr ysgol | Gwnaed cynnydd Tynnwyd o'r Rhestr Fonitro yn Ebrill 2019 |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Alban | Mai 2019 | Digonol/anfoddhaol<br>Mae angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol | Estyn yn monitro |
| Ysgol Feithrin Tremorfa | Chwefror 2019 | Da/Rhagorol | Dd/B |

Ceir gwybodaeth bellach am ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori yn **www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot** a thrwy ddarllen adroddiadau ar-lein Estyn **www.estyn.llyw.cymru**

### Sut yr effeithir ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai pob ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol. Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y ceid effaith negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau arfaethedig:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- disgyblion o Leiafrif Ethnig

## Beth yw manteision y cynnig?

Os cytunwyd i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn yna disgwylid y ceid y manteision canlynol:

- Cynnydd yn nifer y llefydd ysgol uwchradd Saesneg i ateb y galw a ragamcennir;
- Byddai adeiladau ysgol gwael yn cael eu gwaredu;
- Byddai adeiladau ysgol newydd sbon yn cynnig cyfleusterau o ansawdd uchel a fyddai'n gwella cyfleoedd dysgu ac ystod y dewisiadau i ddisgyblion yn derbyn eu haddysg yn Adamsdown a Sblot;
- Byddai adeiladau newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Byddai'r dair ysgol wedi eu lleoli yn agos i'w gilydd gan gynnig cyfleoedd cydweithio i wella gweithio partneriaeth a rhannu arfer da i wella'r deilliannau ar gyfer plant. Gellid rhannu arbenigedd a chyfleusterau arbenigol fel bod pob disgybl yn gallu cael budd haws ohonynt;
- Gallai mwy o blant fanteisio ar lefydd blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn Ysgol Feithrin Tremorfa sydd wedi ei chydnabod gan Estyn am ei 'darpariaeth ragorol';
- Byddai darpariaeth ôl-16 drawsnewidiol newydd a chyffrous ar y safle yn annog mwy o bobl ifanc i barhau â'u haddysg neu hyfforddiant gan gynnig dewisiadau deniadol sy'n eu paratoi nhw ar gyfer eu dewis gyrfa;
- Cyfleusterau chwaraeon a pharciau awyr agored gwell at ddefnydd disgyblion a'r gymuned.

Am ragor o wybodaeth darllenwch y ddogfen ymgynghori lawn yn:
**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**



CANFYDDWCH FWY YN
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot

## Beth yw anfanteision posib y cynnig?

Pe cytunid i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn yna gellid cael anfanteision posib sy'n cynnwys:

- Mae'n bosib y byddai'n rhaid i rieni disgyblion St Alban sy'n dymuno i'w plentyn barhau mewn ysgol Gatholig wedi 2021 deithio ymhellach i'r ysgol. Mae'n bosib y bydd rhai ag angen cludiant cartref i ysgol;
- Mae'n bosib y bydd yn rhaid i rai o ddisgyblion y dyfodol yn Adamsdown a Sblot sydd am fynd i ysgol Gatholig deithio ymhellach i'r ysgol;
- Byddai trosglwyddo Baden Powell i safle newydd ym mharc Tremorfa yn golygu y byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol;
- Gallai diddymu'r ddarpariaeth feithrin yn Baden Powell olygu y byddai'n rhaid i rai teuluoedd â phlant o oed meithrin ac oed cynradd fynd â'u plant i ddwy ysgol wahanol sydd 0.4 milltir ar wahân tra bo'r adeiladau newydd yn cael eu codi. Byddai'n rhaid i'r ysgolion wneud rhai newidiadau i'r modd y maent yn gweithredu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau fod trefniadau addas ar waith i gynorthwyo'u teuluoedd;
- Byddai llai o ofod cyhoeddus agored dros dro wrth i'r gwaith adeiladu fynd rhagddo. Byddai'r cyngor yn ceisio sicrhau bod cymaint o'r gofod allanol hwn â phosib yn hygyrch yn ystod y cyfnod hwn.

## A oes risgiau ynghlwm â'r cynnig?

Mae risgiau ynghlwm â phob cynnig o newid a phrojectau buddsoddi o'r maint a gynigir. Mae'r prif risgiau gyda'r cynigion hyn yn cynnwys:

- Efallai na ddigwydd y cynnydd arfaethedig yn niferoedd disgyblion ledled y ddinas. Fodd bynnag, ar sail nifer y disgyblion yn ysgolion cynradd Caerdydd a maint y datblygiadau mawr sydd ar y gweill mewn rhannau o Gaerdydd nid yw hyn yn ymddangos yn debygol;
- Efallai y ceir cyfyngiadau datblygu nad sydd yn hysbys eto. Pe byddai unrhyw rai yn dod yn amlwg, Gallai hyn olygu y ceid costau uwch a/neu oedi. Byddai arolygon safle ac adroddiadau geo-technegol yn cael eu cwblhau er mwyn cynnig mwy o wybodaeth.
- Efallai na fydd y cynnig yn bosibl os nad yw'r bid ar gyfer cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus;
- Pe na fyddai'r cyngor yn cael y cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru yna'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn dros yr holl gostau yn ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos, hwn byddai gofyn adolygu'r dewisiadau.

## Pe cytunwyd ar y cynigion, pryd fyddai'r adeiladau ysgol newydd yn agor?

Y bwriad yw cwblhau'r ysgolion yn barod i ddisgyblion ddefnyddio'r holl gyfleusterau yn 2023/24.

## Beth fyddai'r effaith ar staff?

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Phenaethiaid, llywodraethwyr, undebau ac eraill i greu fframwaith Adnoddau Dynol SOP a gaiff ei defnyddio pan fydd ysgolion yn cael eu had-drefnu.  Fel rhan o hyn mae'r Cyngor yn cynnig cyngor uniongyrchol, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff llywodraethu ac aelodau staff ym mhob ysgol a effeithir gydol y broses.

Mae cau ysgol Gynradd Gatholig St Alban yn rhoi staff yr ysgol mewn peryg posib o golli eu swyddi. Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethu i leihau diswyddiadau gorfodol. Byddai'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r Pennaeth i sicrhau fod staff yn parhau i dderbyn cymorth ac anogaeth yn ystod sefyllfa a allai fod yn anodd.

Byddai gofyn i Gyrff llywodraethu Ysgol Uwchradd Willows ac Ysgol Gynradd Baden Powell gynllunio ar gyfer newidiadau i'w gweithluoedd cyn yr ehangu.  Byddai gofyn hefyd i Gorff Llywodraethu Baden Powell ystyried effaith y cynnig i leihau ystod oedran yr ysgol.

Mae manylion pellach am yr oblygiadau i staff ysgol i'w cael yn y ddogfen ymgynghori **www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

Am ragor o wybodaeth darllenwch y ddogfen ymgynghori lawn yn:
**www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot**

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r holl adborth i'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor.

Ar ôl ystyried y farn a gaiff ei mynegi, bydd Cabinet y Cyngor wedyn yn penderfynu a yw am fwrw ymlaen i gyhoeddi dogfen a elwir yn 'hysbysiad statudol'.

Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny.  Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad. Nid yw barn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn trosglwyddo draw i'r broses hon.

Os derbynnir gwrthwynebiadau i'r hysbysiad statudol cyhoeddedig, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi crynodeb o'r gwrthwynebiadau hyn ac ymateb y cyngor iddynt.  Byddai'r Adroddiad Gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Byddai unrhyw gynnig a gaiff ei gyhoeddi sy'n cynnwys darpariaeth ôl-16 angen cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu mai Gweinidogion Cymru fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen.

Wedi i Lywodraeth Cymru benderfynu, bydd y Cyngor yn hysbysu pawb y mae'r cynnig yn effeithio arnyn nhw am y penderfyniad. Caiff ei gyhoeddi yn electronig ar wefan y Cyngor.

# Dweud Eich Dweud!

**Mae eich barn yn bwysig. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynnig trwy:**

- Gwblhau a dychwelyd y ffurflen hon. Rhoddir y cyfeiriad i'w hanfon ar waelod y ffurflen.
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn: www.caerdydd.gov.uk/YsgolionAdamsdownSblot

Os yw'n well gennych, gallwch anfon e-bost o'ch barn i: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

**Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw dydd Llun 4 Tachwedd 2019. Yn anffodus, ni ellir ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.**

**1. A ydych yn ymateb fel: Ticiwch bob un sy'n berthnasol**

○ Rhiant ○ Disgybl

○ Llywodraethwr ○ Aelod Staff

○ Arall (manylwch) ______________________

**2. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Uwchradd Willows?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**3. A ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu darpariaeth ôl–16?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**4. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gau Ysgol Gynradd St Alban?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**5. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ehangu a symud Ysgol Gynradd Baden Powell?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**6. A ydych yn cefnogi'r cynnig i ddileu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Baden Powell?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**7. A ydych yn cefnogi'r cynnig i gynyddu'r nifer o leoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Tremorfa ac i ehangu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael?**

○ Ydw ○ Nac ydw

**8. Os ydych yn cefnogi neu ddim yn cefnogi unrhyw un o'r cynigion, esboniwch pam isod**

**9. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu gynigion amgen i'r cynigion, rhowch fanylion isod ynghyd â pham y credwch eu bod yn welliant ar yr hyn a gynigir.**

**10. Oes unrhyw wasanaethau eraill yr ydych yn credu ddylai gael eu darparu yn yr ysgolion, yr hoffech i ni eu hystyried? (e.e. opsiwn i brynu gofal plant cofleidiol, clwb brecwast, clwb gwyliau ayb)**

**11. Unrhyw sylwadau eraill?**

Enw: ______________________

Cyfeiriad: ______________________ Cod post: ______________

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi hysbysiad statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Os ydych yn dymuno cael eich hysbysu am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori, rhowch eich cyfeiriad e-bost. Os nad ydych yn darparu cyfeiriad e-bost, ni allwn eich diweddaru.

## Diolch am eich sylwadau.

Dychwelwch y ffurflen hon at Dîm Cynllunio Trefniadaeth yr Ysgol, Ystafell 422, Neuadd y Sir, CF10 4UW ddim hwyrach na **4 Tachwedd 2019**.

Bydd Cyngor Caerdydd yn prosesu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych uchod yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth a roddir i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gall y Cyngor ei defnyddio neu ei datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen pwrpas prosesu'r data personol i gyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gellir gofyn am unrhyw ymatebion a dderbynnir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid ei gwneud yn gyhoeddus, ond byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n adnabod unigolyn fel enw a chyfeiriad yn cael ei ddileu.

Am ragor o wybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor: www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx